
# Dyfodol Adeiladau Gofal Iechyd Sylfaenol yng Nghymru

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio partneriaeth gydag Archus i adolygu'r holl gyfleusterau Gofal Sylfaenol yng Nghymru, er mwyn nodi meysydd sydd angen eu moderneiddio yn unol â'r rheoliadau cyfredol.

Byddwn ni (Archus) yn asesu'r cyfleusterau gofal sylfaenol o ran cyflwr ffisegol adeiladau, eu haddasrwydd ymarferol, ac o ran defnyddio gofod yn y ffordd orau a diogelwch. Yna, byddwn yn datblygu gwell strategaeth ystadau sy'n canolbwyntio ar y claf i ddarparu gofal amserol mewn amgylchedd modern, sy'n addas at y diben.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn ymchwilio i arferion gorau cyfredol Gofal Sylfaenol gyda'r bwriad o symud tuag at system gofal integredig fwy cynaliadwy. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys clinigwyr, gweithwyr proffesiynol anghlinigol a sefydliadau partner, megis awdurdodau lleol.



Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r cyhoedd i alluogi gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau presennol ac i dynnu sylw at heriau allweddol. Mae'r agenda Gofal Integredig ac Agosach at Gartref yn ceisio creu mynediad cyfartal i gyfleusterau gofal sylfaenol ledled Cymru, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau gofal a chymunedol yn nes at y cartref.

## Pam rydyn ni'n edrych ar hyn?

Bydd edrych ar Ofal Sylfaenol a Llwybrau ledled Cymru yn rhoi cyfle inni gamu ymlaen gyda modelau gofal newydd.


Adeiladu ar yr ymrwymiad i ddarparu gofal mor agos i'r cartref â phosibl, creu mynediad cyfartal ac amgylchedd mwy effeithiol / diogel i gleifion a staff.

Yn y dyfodol, credwn y gall gwaith yn y maes hwn wneud y canlynol:

- Gwella iechyd a llesiant pobl Cymru;
- Darparu mynediad cyfartal i gyfleusterau gofal sylfaenol, trwy ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu yn agosach i'r cartref;
- Creu amgylchedd effeithlon ar gyfer staff y GIG ac amgylchedd gwell i gleifion;
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lle darperir gofal sylfaenol.

# Dyfodol Adeiladau Gofal Iechyd Sylfaenol yng Nghymru

## Beth yw'r amserlenni?




## Cymerwch ran...

Rydym yn awyddus iawn i gynifer o bobl â phosibl gymryd rhan - darparwyr, comisiynwyr, partneriaid ehangach a'r cyhoedd. Byddwn yn sefydlu gweithgor yn gynnar yn y flwyddyn newydd.
Am ragor o wybodaeth, neu i gymryd rhan, cysylltwch â:

- **Paul Casey,** (Uwch-swyddog Cyfrifol Llywodraeth Cymru) Pennaeth Diwygio Contractau Gofal Sylfaenol: paul.casey@gov.wales
- **Rebecca Pang (Archus) Cymorth Prosiect**: r.pang@archus.uk.com Ffôn symudol: 07774 899 849

**Neu defnyddiwch y dolenni isod i gael mynediad i'r arolwg yn uniongyrchol (ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg):**

Arolwg Gofal Iechyd Sylfaenol i'r Cyhoedd (Cymraeg) Primary Healthcare Public Survey (English)

## Beth sydd o fewn y cwmpas?

Byddwn yn ystyried:

- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn bennaf, gan gynnwys gwasanaethau clinigol / anghlinigol ehangach;
- Dull system gyfan at ofal; ystyried gofal ar bob lefel, o ofal yn y gymuned i ddarparwyr gwasanaethau elusennol;
- Dadansoddiad o'r modelau gofal sylfaenol presennol a sut y gallant alinio â model y dyfodol.

Ni fyddwn ni'n ystyried:

- Gofal eilaidd;
- Ysbytai acíwt mawr;
- Gwasanaethau Arbenigol;
- Gwasanaethau Brys.